**Senedd Cymru**
**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
**Ymchwiliad:** Llwybrau prentisiaeth
**Cyf:** AP24
**Ymateb gan:** Coleg Cymraeg Cenedlaethol

-

**Welsh Parliament**
**Economy, Trade, and Rural Affairs Committee**
**Inquiry:** Apprenticeship pathways
**Ref:** AP24
**Evidence from:** Coleg Cymraeg Cenedlaethol

COLEG CYMRAEG CENEDLAETHOL

Coleg Cymraeg Cenedlaethol
Y Llwyfan
Heol y Coleg
Caerfyrddin
SA31 3EQ

Cadeirydd:
**Dr Aled Eirug**
Prif Weithredwr:
**Dr Ioan Matthews**

**Ffôn:** 01267 610400
**E-bost:** gwybodaeth@colegcymraeg.ac.uk

Cyfeiriad e-bost: SeneddEconomi@Senedd.Cymru

6 Chwefror 2025

Annwyl Bwyllgor,

**Cyf: Ymgynghoriad Llwybrau Prentisiaethau i Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gweledig**

Diolch yn fawr am y cyfle i gyflwyno tystiolaeth i ymgynghoriad y Pwyllgor ar lwybrau prentisiaethau.

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi prif negeseuon y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (y Coleg). Byddem yn barod iawn i ymhelaethu gan ein bod yn ystyried bod maes prentisiaethau o'r pwys mwyaf yng nghyd-destun ehangu'r defnydd o'r Gymraeg. Rydym yn cydnabod fod y drafodaeth hon yn digwydd pan fo'r sector wedi wynebu toriadau ac rydym yn gweld y datblygiadau dwyieithog angenrheidiol fel rhan greiddiol o fuddsoddiad addas a theilwng yn y sector prentisiaethau.

Mae'r Coleg yn creu a hyrwyddo cyfleoedd hyfforddi ac astudio yn y Gymraeg drwy weithio gyda cholegau addysg bellach, ysgolion, prifysgolion, darparwyr prentisiaethau a chyflogwyr. Ry'n ni'n ysbrydoli ac yn annog pawb i ddefnyddio'u sgiliau Cymraeg, gyda'r nod o greu gweithlu dwyieithog, gan gynnwys y gweithlu addysg ei hun. Mae Llywodraeth Cymru wedi dynodi'r Coleg i gynghori Medr (y Comisiwn Addysg Drydyddol

ac Ymchwil) mewn perthynas â'i ddyletswyddau statudol yn ymwneud â'r Gymraeg.

**Prif negeseuon**

Rydym o'r farn bod angen:

- **Gosod gofynion yn ymwneud â'r Gymraeg mewn fframweithiau a safonau galwedigaethol**
- **Galluogi prentisiaid sy'n siarad Cymraeg i gael profiad cyfrwng Cymraeg**
- **Comisiynu dadansoddiad llawn o'r llwybrau cyfrwng Cymraeg sydd ar gael i ddarpar brentisiaid, a'r bylchau sydd angen eu llenwi**
- **Ystyried y dimensiwn ieithyddol wrth gynllunio mynediad i grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli**

Mae'r hyn sydd yn dilyn yn canolbwyntio ar yr elfennau hynny o gwestiynau'r ymgynghoriad sy'n berthnasol i weithgareddau presennol y Coleg ym maes prentisiaethau.

**Cefndir**

Rhoddwyd cyfrifoldeb i'r Coleg dros y maes prentisiaethau Cymraeg a dwyieithog yn 2018, ac yn 2019 lansiwyd ein Cynllun Gweithredu Addysg Bellach a Phrentisiaethau cyfrwng Cymraeg gan Kirsty Williams, y Gweinidog Addysg ar y pryd. Mae'r Cynllun Gweithredu yn targedu *pob* dysgwyr a phrentis, beth bynnag eu sgiliau Cymraeg.

Yn sgil derbyn cyllid drwy'r Cytundeb Cydweithio, cyflwynodd y Coleg fodel grantiau datblygu i'r sector brentisiaethau yn 2022/23 er mwyn cyflogi aseswyr yn meysydd Iechyd a Gofal a Gofal Plant, yn ogystal â chydlynwyr y Gymraeg. Ymestynnwyd y cynllun yn 2023/24 ac erbyn hyn mae 35 o aseswyr yn cael eu cyllido yn y sector brentisiaethau drwy'r grantiau. Mae gan y Coleg gynrychiolaeth ar Grwp Dysgu Seiliedig ar Waith Colegau Cymru ac yn ymgysylltu'n rheolaidd gyda NTfW.

Mae nifer y dysgwyr sy'n astudio rhywfaint o'u cwrs yn ddwyieithog (B3) wedi cynyddu yn sylweddol iawn yn y sector dysgu seiliedig ar waith ers i'r Coleg ddechrau ymwneud â'r sector. Nid yw nifer y dysgwyr sy'n astudio eu cwrs yn y Gymraeg neu'n helaeth iawn yn y Gymraeg (C1/B1) wedi newid yn arwyddocaol dros gyfnod y Cynllun Gweithredu a bydd hwn yn ffocws i'r gwaith yn ystod y cyfnod nesaf.

**Gosod gofynion yn ymwneud â'r Gymraeg mewn fframweithiau a safonau galwedigaethol**

Mae dirfawr angen cynyddu disgwyliadau o ran y Gymraeg o fewn fframweithiau prentisiaethau ac yn y safonau galwedigaethol (NOS) er mwyn llenwi bylchau sgiliau o ran y Gymraeg. Er bod safonau galwedigaethol cyffredinol ar gyfer datblygu sgiliau iaith, nid oes safonau ieithyddol ar gyfer meysydd neu sectorau penodol.

Er enghraifft, mewn prentisiaeth mewn maes fel iechyd a gofal, dylai prentisiaid gwblhau rhan o'r brentisiaeth trwy gyfrwng y Gymraeg. I'r rheiny sydd â dim neu ychydig o sgiliau yn y Gymraeg, dylai bod gofyniad iddynt ddysgu rhywfaint o Gymraeg trwy gyfrwng cyrsiau a ddarperir gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg ac yna dylai gael ei atgyfnerthu yn narpariaeth y brentisiaeth. Gellid blaenoriaethu meysydd lle mae galw am weithwyr sydd â sgiliau yn y Gymraeg fel iechyd a gofal, gofal plant, addysg a hyfforddiant, y sector gyhoeddus ac amaeth yn hyn o beth sy'n gyson gyda Chynllun Gweithredu Addysg Bellach a Phrentisiaethau Cymraeg y Coleg a blaenoriaethau'r Llywodraeth.

**Galluogi prentisiaid sy'n siarad Cymraeg i gael profiad cyfrwng Cymraeg**

Mae angen gosod gweithdrefnau i hwyluso profiad prentisiaid sy'n siarad Cymraeg. Er enghraifft, dylid sicrhau bod cyflogwyr yn cynllunio i ddarparu mentor sy'n siarad Cymraeg i gefnogi prentisiaid sy'n siarad Cymraeg. Dylid ystyried maint cyflogwyr wrth osod amod o'r fath: gellid ei wneud yn hwylus mewn sefydliadau cyhoeddus mawr fel awdurdodau lleol, byrddau iechyd a heddluoedd.

Bydd angen monitro'r datblygiadau hyn er mwyn sicrhau bod llwybr hygyrch i unrhyw brentis gwblhau'r brentisiaeth trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn hefyd yn gydnaws gydag awgrym a wnaed gan y Comisiwn Cymunedau Cymraeg i gynnig prentisiaethau cyfrwng Cymraeg mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch ac argymhellwn weithredu ar yr awgrym hwn.

I gyrraedd y nod o gynyddu disgwyliadau sy'n ymwneud â'r Gymraeg mewn fframweithiau, mae'n bwysig gweithio gyda phartneriaid e.e. Colegau Cymru, y colegau addysg bellach, y darparwyr prentisiaethau (a phrifysgolion lle'n berthnasol) ac wrth gwrs gyda chyflogwyr unigol. Mae gallu datblygu sgiliau'r gweithlu yn allweddol i ffyniant economaidd ac mae hynny'n cynnwys datblygu sgiliau iaith er mwyn gallu darparu gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg.

**Comisiynu dadansoddiad llawn o'r llwybrau cyfrwng Cymraeg sydd ar gael i ddarpar brentisiaid, a'r bylchau sydd angen eu llenwi.**

Un darn allweddol o waith sydd angen ei wneud er mwyn sicrhau bod modd rhannu arfer dda yw dadansoddiad llawn o pa lwybrau sydd ar gael eisoes i brentisiaid sy'n dymuno cwblhau prentisiaeth yn Gymraeg.

Dylid gosod gofyniad ar y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol i gasglu a rhannu gwybodaeth am brentisiaethau sydd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg ar wahanol lefelau, ac i gymryd camau i lenwi bylchau yn sgil hynny.

Ceir enghreifftiau effeithiol o rannu gwybodaeth gyda darpar brentisiaid mewn rhai ardaloedd. Mae Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol y Gogledd wedi creu llawlyfr yn mapio llwybrau prentisiaethau a'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg/dwyieithog. Mae hwn yn arfer da ac yn cynnig patrwm posibl i'r partneriaethau eraill. Dylid annog  pob partneriaeth i ddatblygu rhywbeth tebyg ar gyfer eu hardaloedd nhw.

Hefyd, mae gan rai o'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol gynlluniau sy'n targedu pobl ifanc ac yn rhoi cyngor gyrfaoedd iddyn nhw: y Cynllun Profi yn y De-orllewin, a'r twlcit sydd wedi'i ddatblygu yn y Gogledd. Mae'r

datblygiadau hyn yn cyfeirio at brentisiaethau yn gyffredinol a byddai'n fanteisiol gweld cyfeiriadau penodol at y Gymraeg fel sgil yn y gweithle er mwyn codi ymwybyddiaeth darpar brentisiaid. Nid oes dim byd tebyg wedi'i ddatblygu gan y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol ar gyfer y Canolbarth na'r De-ddwyrain.

**Ystyried y dimensiwn ieithyddol wrth gynllunio mynediad i grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli**

Fel soniwyd uchod, mae angen dadansoddiad manwl o lwybrau prentisiaeth, yn ogystal â'r sgiliau ieithyddol amrywiol sydd gan ddarpar brentisiaid. Mae awgrym o'r data ar brentisiaethau fod siaradwyr Cymraeg rhugl yn llai tebygol o ddilyn prentisiaeth; mae hynny yn pwysleisio'r angen i gefnogi prentisiaethau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Dylai gwaith Llywodraeth Cymru a Medr yn y maes cydraddoldeb ystyried y dimensiwn ieithyddol yn llawn.

**I gloi**

Hyderwn bydd cynnwys y llythyr hwn o fudd i'r Pwyllgor. Am ragor o wybodaeth mae croeso i chi gysylltu gyda Dr Dafydd Trystan, Cofrestrydd a Chyfarwyddwr Addysg Bellach a Phrentisiaethau, ar d.trystan@colegcymraeg.ac.uk.

Yn gywir,



**Dr Ioan Matthews**

**Prif Weithredwr**